# Sir Ddinbych Hygyrch




# Llwybr Prestatyn – Diserth

Sir Ddinbych Hygyrch

**Allwedd i Arwyddion**

Llwybr
Ffordd
Parcio
Safle bws
Giât mochyn
Rhwystrau
Pont
Pyst

# Llwybr Prestatyn – Diserth

## Gwybodaeth am y Llwybr

Gellir dilyn taith linellol rhwng Prestatyn a Diserth ar y llwybr yma, sy'n benna'n rhydd o draffig.

*Pellter:* 2.6 milltir / 4.25cilomedr.

*Neilltuwch:* 1 – 1.5 awr pob ffordd.

*Arwyneb:* Tarmac llyfn.

*Lled y Llwybr:* Lleiafswm o 180cm am y rhan fwyaf o'r ffordd.

*Llethrau:* Mae yna ddisgynfa naturiol o Ddiserth i Brestatyn. Mae hyn yn un graddol yr holl ffordd ar hyd y llwybr.

*Pyst:* Mae pyst metal yn lleihau lled y llwybr i leiafswm o 120cm.

*Rhwystrau:* Mae rhwystrau metal yn lleihau lled y llwybr i leiafswm o 120cm.

*Mannau Mynediad:* Fe leolir giatiau ar hyd y llwybr, sy'n arwain at Allt Melyd a'r Graig Fawr. Lleiafswm lled ydi 90cm.

## Gwybodaeth i Ymwelwyr

Gellir cyrraedd Prestatyn a Diserth trwy gymryd y gyffordd sy'n arwyddo Prestatyn oddi ar yr A55.

*I ddefnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus:*

Mae gwasanaeth cyson yn rhedeg rhwng Rhyl, Prestatyn, Allt Melyd a Diserth. Gweler **www.traveline-cymru.info** i gynllunio'ch siwrne.

*Parcio:* Parcio yn rhad ac am ddim ym maes parcio Anglia yn Niserth, sy â 3 lle parcio i'r anabl. Mae nifer o lefydd i barcio ym Mhrestatyn, rhai ohonyn nhw'n gofyn ichi dalu ac arddangos.

*Toiledau:* Does dim toiledau wedi'u lleoli ar y daith; fodd bynnag, mae cyfleusterau ar gael yn Niserth a Phrestatyn.

*Cyfleusterau eraill:* Mae bwytai, caffis a siopau wedi'u lleoli yn Niserth, Allt Melyd a Phrestatyn.

Dewch â dillad rhag y glaw a gwisgwch esgidiau addas. Defnyddiwch hufen haul ym misoedd yr haf.

Gwybodaeth bellach: www.denbighshirecountryside.org.uk